# Datganiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Uwch Staff ar gyfer blwyddyn ariannol 2018–19

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â 'Chod Ymarfer Cydnabyddiaeth Staff Uwch mewn Addysg Uwch' Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC) (Mehefin 2018).

**Ymagwedd at Gydnabyddiaeth Uwch yn ystod 2018–19**

Ar 21 Medi 2018, cymeradwyodd y Cyngor Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch newydd ar gyfer y Brifysgol, sy'n egluro ymagwedd y sefydliad at gydnabyddiaeth i ddeiliaid swyddi uwch. Caiff ei adolygu bob dwy flynedd.

Ceir copi o'r Fframwaith yma: https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/remuneration/.

Yn unol â'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch, mae'r awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor gan y Cyngor i gytuno ar faterion yn ymwneud â chydnabyddiaeth yr "Is-Ganghellor, Dirprwy Is-Gangellorion; a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol".

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol ac mae'n dymuno denu a chadw'r staff gorau bosibl. Fodd bynnag, wrth wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth i staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth gadw fforddiadwyedd y penderfyniadau hyn mewn cof a chyfeirio at ddata meincnodi ar gyfer Prifysgolion cyffelyb.

Yn hyn o beth, tynnwyd ar ddata meincnodi yn Arolwg blynyddol Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (UCEA) o Gydnabyddiaeth Staff Uwch, ac Arolwg Blynyddol y CUC o Gyflogau Is-Gangellorion.

Mae pob aelod o'r Staff Uwch yn y Brifysgol fel mater o drefn yn derbyn unrhyw ddyfarniadau cyflog 'costau byw' a ddarperir gan y Brifysgol i'w chyflogeion sydd ar y golofn gyflogau a gytunwyd yn genedlaethol.

Fel gyda chyflogeion eraill, rhaid i staff uwch y Brifysgol gyfranogi ym mhroses arfarnu Cynllun Cyfraniadau Effeithiol y sefydliad. Cadeirydd y Cyngor sy'n cynnal yr arfarniad blynyddol hwn ar yr Is-Ganghellor. Ar gyfer staff uwch eraill o fewn cwmpas y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, cynhelir yr arfarniad hwn gan yr Is-Ganghellor, fel eu rheolwr llinell.

Yna cyflwynir canlyniadau'r arfarniadau hyn i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth i ffurfio sail ar gyfer unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth am unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth y staff uwch dan sylw.

**Tâl yr Is-Ganghellor**

Roedd tâl yr Is-Ganghellor ar gyfer blwyddyn academaidd 2018–19, o'i gymharu â'r tâl am y flwyddyn flaenorol, fel a ganlyn:

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| Cyflog | £228,000 | £224,000 |
| Tâl yn gysylltiedig â pherfformiad | £0 | £0 |
| Buddion[1] | £1,000 | £1,000 |
| **Is-gyfanswm** | **£229,000** | **£225,000** |
| Costau pensiwn | £5,000 | £5,000 |
| **Cyfanswm** | **£234,000** | **£230,000** |

[1] Buddion trethadwy'n ymwneud â llety ym Mhlas Penglais, lle mae'n ofynnol i'r Is-Ganghellor fyw.

Ar gyfer y cyfnod 2018–19, roedd lluosrif tâl enillion yr Is-Ganghellor (£229,000) yn erbyn canolrif enillion yr holl staff (staff yn cyfateb ag amser llawn, ac eithrio Gweithwyr Aber a staff wrth gefn: £28,331) oedd 1:8.

Ar gyfer cymharu, lluosrif tâl enillion yr Is-Ganghellor yn erbyn canolrif enillion yr holl staff (staff yn cyfateb ag amser llawn, ac eithrio Gweithwyr Aber a staff wrth gefn) ar gyfer y cyfnod 2017–18 oedd 1:7.

Gall yr Is-Ganghellor ymgymryd â gwaith allanol gyda phartïon eraill y tu allan i'r Brifysgol, gan gynnwys Cyfarwyddiaethau neu aelodaeth o Fyrddau, gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cadeirydd. Bydd cadw unrhyw incwm a gynhyrchir gan gyrff allanol yn cael ei gytuno ar sail achosion unigol. Nid yw'r Is-Ganghellor yn derbyn unrhyw incwm ychwanegol gan y cyrff allanol y mae'n gwasanaethu arnynt.

Fel yn achos yr holl gyflogeion eraill, caiff yr Is-Ganghellor hawlio ad-daliad o wariant allan o boced yn unol â threfniadau Cyllid a Theithio cymeradwy'r Brifysgol. Mae unrhyw hawliadau o'r fath gan yr Is-Ganghellor yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gadeirydd y Cyngor.